

Newid mewn Gwasanaethau Rhanbarthol

CIC Bae Abertawe

cyfnod adrodd: Gorffennaf – Medi 2020

Cynigion o safbwynt newid mewn gwasanaethau	Gweithgaredd y CIC yn ystod y cyfnod hwn	Sylwadau
Trawma mawr	<p>Cytunodd CIC BA ar y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau ym mis Mawrth 2019. Yn ystod y chwarter hwn, cyflwynwyd diweddariad i Bwyllgor Cynllunio Gwasanaethau (PCG) Medi 2020.</p> <p>Y dyddiad ar gyfer yr uned Trawma Mawr yn mynd yn fyw yw 14 Medi 2020.</p> <p>Bydd papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar</p>	<p>Mynegwyd pryderon gan Ymgynghorwyr Orthopedig ynghylch effaith y prosiect Canolfan Trawma Mawr ar welyau wedi'u ffensio ar gyfer cleifion llawfeddygol orthopedig dewisol.</p>

	<p>ddiwedd mis Medi yn dweud bod ysbyty Treforys yn barod i gynnal yr uned a bod y Bwrdd Iechyd yn barod i arwain ar y Rhwydwaith Trawma Mawr.</p> <p>Oherwydd na fydd yr holl staff yn eu lle, bydd gan rai ardaloedd drefniant amgen i ddechrau o safbwynt staff cyflenwi.</p>	
<p>Llawdriniaeth thorasig i Oedolion</p>	<p>Diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu gan BIP BA i'r Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau (PCG) a'r Pwyllgor Gweithredol (PG). Rhoddwyd ystyriaeth i'r diweddariad diweddaraf gan y PCG ym mis Medi 2020.</p> <p>Oherwydd Covid-19, nid yw'r cynlluniau wedi symud ymlaen. Mae materion sy'n codi o ganlyniad i Covid yn dangos heriau o safbwynt staffio. Dim ond 6 ymgynghorydd sydd ledled Cymru, ac mae 2 ohonynt yn staff</p>	<p>CIC BA yn cynrychioli'r Bwrdd ar y Bwrdd gweithredu. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) hefyd yn darparu diweddariadau i'r Cydbwyllgor Newid mewn Gwasanaethau (JSCC).</p>

	<p>locwm. Bu'n rhaid i ymgynghorwyr o Fyrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth gan fod yn rhaid i rai staff hunan-ynysu. Gofynnwyd i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) ddarparu manyleb gwasanaeth wedi'i adolygu oherwydd yr amser a aeth heibio ers y cyfnod ymgysylltu/ymgynghori. Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gweithredu yn dilyn Covid-19 yn cael ei gynnal yn ystod y mis hwn.</p>	
<p>Cynigion i gau'r Uned Mân Anafiadau yn ysbyty Singleton</p>	<p>Dim diweddariad y chwarter hwn.</p> <p>Derbyniwyd llythyr yn rhoi gwybodaeth am yr estyniad i'r cau dros dro. O ganlyniad i'r coronafeirws, ni fydd ymgysylltiad yn digwydd yn y dyfodol agos.</p>	<p>Bydd y drafodaeth ynglŷn â'r cau yn aros ar agenda'r Weithrediaeth nes bydd yr ymgynghori wedi dod i ben a bod ffordd ymlaen wedi'i chytuno.</p>

<p>Mewnblaniadau yn y Cochlea</p>	<p>Yn y chwarter hwn, cyflwynwyd diweddariad i'r PCG Medi 2020. Mae'r Gwasanaeth Cochlea o fewn BIP Cwm Taf Morgannwg yn parhau i fod yn lefel 4 o safbwynt lefel uwchgyfeirio. Mae ymgynghori bellach wedi dechrau trwy PGIAC ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol.</p>	<p>19.08.2020 – ysgrifennwyd at y BI am ddiweddariad o ystyried yr ymgynghoriad rhanbarthol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.</p>
<p>Uned Iechyd Meddwl ar gyfer mamau a babanod</p>	<p>Cyflwynwyd diweddariad i gyfarfod y PCG Medi 2020. Bydd yr uned dros dro yn ysbyty Tonna yn cael ei hadeiladu ac yn weithredol erbyn Mawrth 2021.</p>	<p>Gwasanaeth newydd i Gymru gyfan a fydd yn cael ei gynnal gan BIP BA.</p>
<p>Adran Achosion Brys - Ffoniwch yn gyntaf</p>	<p>Yn cael ei dreialu yn Ysbyty Athrofaol Cymru – gyda'r bwriad o'i gyflwyno ledled Cymru. Mynychodd cynrychiolydd y BI gyfarfod y PCG ar 8 Medi i gynghori aelodau ar y cynigion ar gyfer Ffonio yn Gyntaf yr Adran Achosion Brys a'r</p>	<p>Cynrychiolydd y CIC i eistedd ar grŵp gorchwyl a gorffen y BI. Eisiau gweld ymgysylltiad / cyfathrebu gweithredol gyda'r cyhoedd</p>

	<p>Uned Mân Anafiadau yn BIP BA. Mae LIC wedi cynhyrchu 17 dangosydd ar gyfer gofal brys yn ystod pandemig. Dyma un ohonyn nhw.</p> <p>Mae yna gynig yn y maes hwn i ddatblygu'r gwasanaeth 111. Bydd y system yn cyfeirio galwadau i ganolbwynt lle gellir ailgyfeirio cleifion i'r gofal priodol. Mae'r BI wedi cyflwyno papur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yn sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen. Edrych ar wasanaeth 7 diwrnod, 12 awr. Mae grŵp Cymru gyfan wedi'i sefydlu. Chwilio am ei gyflwyno'n genedlaethol erbyn mis Tachwedd 2020.</p>	
<p>Cynigion o safbwynt newid mewn gwasanaethau (yn mudferwi)</p>	<p>Gweithgaredd y CIC yn ystod y cyfnod hwn</p>	<p>Sylwadau</p>

Ailgyflunio gwasanaethau Gastroberfeddol Uwch ledled De Cymru	Mae'r BI wedi ein cynghori am newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth hwn ond ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth hyd yn hyn.	
---	--	--